Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad Amgylcheddol

# Gorffennaf 2023

## Polisi amgylcheddol

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n annibynnol ar, ond yn cael ei ariannu gan, Lywodraeth Cymru o dan adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Rydym yn gyfrifol am gynnal arolygiadau statudol ac adrodd ar ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Hefyd, rydym yn darparu cyngor penodol i Lywodraeth Cymru i ymateb i gylch gwaith blynyddol gan y Gweinidog.

Yn ystod 2022-2023, roeddem yn cyflogi 164 o bobl yn gyfan gwbl, gan gynnwys staff parhaol a chyfnod penodol a secondeion / staff asiantaeth. Mae polisi amgylcheddol Estyn yn cwmpasu holl weithgareddau'r sefydliad. Mae Estyn yn ymrwymo i ddiogelu'r amgylchedd, gwella ei reolaeth a'i berfformiad amgylcheddol yn barhaus, bodloni ymrwymiadau a chydymffurfiaeth amgylcheddol (yn rheoleiddiol ac yn wirfoddol) ac atal llygredd.

Mae Estyn wedi nodi bod ein prif effeithiau ar yr amgylchedd yn deillio o ddefnyddio ynni, o gludiant fel arfer, a chynhyrchu gwastraff. Byddwn yn ceisio lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, gan gynnwys ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, trwy ymrwymo i set gynhwysfawr o amcanion amgylcheddol:

1. Parhau i ddefnyddio ynni'n effeithlon a monitro'r $CO_2$ a gynhyrchir, gan anelu at ostwng ymhellach ein hallyriadau a chyfrannu at darged sero net sector cyhoeddus Cymru erbyn 2030.
2. Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru (LlC) "Tuag at Ddyfodol Diwastraff", parhau i beidio ag anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi.
3. Yn unol ag ymrwymiad LlC "Tuag at Ddyfodol Diwastraff", lleihau sgil-gynhyrchion gwastraff 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050 (yn seiliedig ar ffigurau 2013-2014).
4. Lleihau effaith cludiant y sefydliad sy'n cyfrannu at y targed lleihau $CO_2$ (amcan 1).
5. Cyfleu mentrau amgylcheddol a'n hymrwymiad i gynaliadwyedd ehangach i'r cyhoedd a'r staff.
6. Parhau i ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol mewn gweithdrefnau prynu.

Mae'r polisi hwn yn cael ei rannu gyda'n holl staff, y gofynnir iddynt am eu barn am ein hamcanion amgylcheddol, ac fe'i cyhoeddir ar ein gwefan. Bydd y Swyddog Arweiniol: Cynaliadwyedd yn adolygu'r polisi hwn yn flynyddol o leiaf.

Owen Evans
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

04 Gorffennaf 2023

## Pwy ydym ni

Estyn yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Ein cenhadaeth yw cefnogi rhagoriaeth i bob dysgwr yng Nghymru. Rydym yn gwneud hyn trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol, o ansawdd uchel i Lywodraeth Cymru a dinasyddion Cymru. Rydym yn annibynnol ar, ond yn cael ein hariannu gan, Lywodraeth Cymru (adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

Mae Ein blaenoriaethau, sy'n amlinellu ein cenhadaeth a'n gweledigaeth, ein hamcanion strategol a'n gwerthoedd, ar gael ar ein gwefan. Mae'r adran Amdanom ni ar ein gwefan yn esbonio'r gwaith a wnawn ymhellach.

## Y newid yn yr hinsawdd

Rydym yng nghanol argyfwng hinsawdd o hyd: yn fyd-eang, rydym yn gweld digwyddiadau digynsail o ran yr hinsawdd; rydym ar ben ffordd i'r tymheredd godi mwy na 2°C; mae difodiant yn fygythiad i filiwn o rywogaethau oherwydd y newid yn yr hinsawdd a gor-ecsbloetio adnoddau naturiol; hefyd, mae tystiolaeth gynyddol o effeithiau niweidiol plastig ar yr amgylchedd ac organebau byw.

Mae llywodraethau a sefydliadau ar draws y byd yn parhau i wneud ymrwymiadau uchelgeisiol i gyrraedd allyriadau sero net. Yn 2019, datganodd Llywodraeth Cymru a'r Senedd argyfwng hinsawdd ac, ers hynny, mae wedi gosod targed sy'n rhwymo'n gyfreithiol i gyflawni allyriadau carbon sero net yng Nghymru erbyn 2050. Yn Hydref 2021, cyhoeddwyd Cymru Sero Net – Cyllideb Garbon (2021-2025) gan Lywodraeth Cymru, sef yr ail gynllun datgarboneiddio statudol. Mae hwn yn amlinellu'r polisïau a'r dulliau i gyflawni ail Gyllideb Garbon Cymru ac, at hynny, mae'n gosod yr uchelgais i'r sector cyhoeddus yn gyfunol gyrraedd sero erbyn 2030 Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd sector cyhoeddus Cymru. Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd yw cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer addasu i'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Er bod y sector cyhoeddus yn cyfrif am swm bach yn unig o allyriadau Cymru, mae mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu ar allyriadau mewn meysydd fel cludiant, ynni a'r defnydd ar dir. Dyma boster Llywodraeth Cymru i ddangos sut y byddant yn gostwng allyriadau carbon i sero net erbyn 2050 Ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd: ffeithlun.

Hefyd, mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad i leihau gwastraff a phlastig diangen, wedi'i amlinellu yn strategaeth yr economi gylchol, Mwy nag Ailgylchu, sy'n anelu at Gymru ddiwastraff erbyn 2050. Mae ein cyfradd ailgylchu genedlaethol wedi cyrraedd dros 65%, gan gadarnhau lle Cymru fel un o'r gwledydd sy'n ailgylchu fwyaf yn y Byd. Hefyd, mae'r adroddiad yn hyrwyddo buddion economi fwy cylchol sy'n dal ati i ddefnyddio adnoddau a deunyddiau mor hir â phosibl ac sy'n osgoi pob gwastraff. Bydd hyn yn cynnwys symud rhag y diwylliant cymryd-gwneud-defnyddio-gwaredu.

Yn Estyn, rydym yn ymrwymo i chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â'r newid hinsawdd a rheoli gwastraff, gan wneud ein gwaith mewn modd cyfrifol yn amgylcheddol a gwreiddio

cynaliadwyedd wrth ganol ein gweithrediadau. Nod ein hamcanion amgylcheddol yw cyflawni hyn.

Mae ein huwch dîm rheoli yn ymrwymo i ddylanwadu ar gyfrifoldeb amgylcheddol, a'i hyrwyddo, yn ein gweithrediadau a thrwy ein gwaith craidd – arolygiadau ac adolygiadau thematig. Dyfernir Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd i sefydliadau sy'n gallu dangos rheolaeth amgylcheddol effeithiol ac sy'n gweithredu i ddeall, monitro a rheoli eu heffeithiau ar yr amgylchedd. Diolch i gefnogaeth ein staff, rydym wedi ennill ailachrediad ar lefel 3 y safon hon ers 2007.

Yn 2022-2023, dychwelom i weithgareddau normal gyda staff gwasanaethau canolog yn dychwelyd i'r swyddfa ar sail gweithio hybrid. Yn ystod 2022-2023, cynhaliom 391 o arolygiadau craidd (322 yn 2019-2020), a pharhaom i ymgysylltu â darparwyr trwy weithgarwch dilynol a gweithgarwch arolygu arall. Hefyd, gwnaethom ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth baratoi adroddiadau thematig a chynnal digwyddiadau i randdeiliaid a gweithgarwch hyfforddiant.

Rydym yn dychwelyd i batrwm adrodd mwy normal yn 2022-2023.

## Deddfwriaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi pasio tair Deddf sy'n trafod cynaliadwyedd.

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn gwella prosesau cynllunio presennol i sicrhau bod y datblygiad cywir wedi'i leoli yn y lle cywir.

Rhoddodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 y ddeddfwriaeth angenrheidiol ar waith i alluogi adnoddau naturiol Cymru i gael eu cynllunio a'u rheoli mewn ffordd fwy cynaliadwy, rhagweithiol a chysylltiedig.

Hefyd, mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd fanylach ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (dyletswydd adran 6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Estyn) wrth arfer swyddogaethau yn gysylltiedig â Chymru. I gydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6, dylem ymgorffori ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn ein syniadau a'n cynllunio busnes cynnar, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'n gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Rhaid i ni gyhoeddi cynllun yn amlinellu'r hyn rydym yn cynnig ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd (ein polisi amgylcheddol). Hefyd, cyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019, rhaid i ni gyhoeddi adroddiad ar yr hyn rydym wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6 (ein hadroddiad amgylcheddol). Dylai'r ddyletswydd adrodd ffurfio rhan o'n systemau adrodd arferol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cyflwyno diben cyffredin i gyflawni ansawdd bywyd gwell a pharhaus i bob un ohonom. Mae set integredig o saith nod llesiant yn cynrychioli'r diben cyffredin. Hefyd, mae'r Ddeddf yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith.

Rydym wedi bod yn gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau ers sawl blwyddyn. Er nad yw'r ddyletswydd yn berthnasol i ni (nid ydym yn gorff cyhoeddus a restrir at ddibenion y Ddeddf), rydym serch hynny'n cefnogi ysbryd y Ddeddf ac yn ymdrechu i gynnwys yr elfennau llesiant angenrheidiol a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ein cynllunio, ein llywodraethu a'n darpariaeth weithredol, ac yn y ffordd rydym ni'n arwain, yn cynnwys ac yn cyfathrebu â'n staff a'n rhanddeiliaid.

## Cysylltiadau ag amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

Yn unol â'r hyn a argymhellwyd yn yr arweiniad ar y ddyletswydd adran 6, mae ein gweithgareddau'n cyd-fynd â'r amcanion perthnasol yng Nghynllun Adfer Natur Cymru (NRAP). Mae'r rhain yn adlewyrchu nodau strategol y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, sef y cytundeb rhyngwladol allweddol ar fioamrywiaeth y mae Llywodraeth y DU wedi'i lofnodi. Mae'r arweiniad yn nodi y dylai sefydliadau sydd â deiliadaeth adeilad swyddfa yn unig ac nad yw eu swyddogaethau'n gysylltiedig yn uniongyrchol â bioamrywiaeth a/neu reoli tir gysylltu ag amcanion 1, 4 a 6.

- Amcan 1: Ymgysylltu a chynorthwyo cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth ledled penderfyniadau a wneir ar bob lefel
- Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd
- Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith ar gyfer cyflenwi

Rydym wedi nodi yn ein hadroddiadau ble mae ein camau gweithredu yn cyfrannu at amcan perthnasol Cynllun Adfer Natur Cymru.

Bioamrywiaeth yw amrywiaeth y bywyd sydd i'w gael ar y ddaear. Mae gweithgarwch prif ffrydio bioamrywiaeth mewn sefydliadau nad ydynt yn ymwneud â rheoli tir wedi tueddu i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r pwysau ar rywogaethau a chynefinoedd, er enghraifft trwy liniaru'r newid yn yr hinsawdd / datgarboneiddio, gan gynnwys caffael yn lleol ac o ffynonellau cynaliadwy, ac arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau.

## Amcanion amgylcheddol 2023-2024

Rydym wedi nodi bod ein prif effeithiau ar yr amgylchedd yn deillio o: gludiant, defnyddio ynni a chynhyrchu gwastraff.

Byddwn yn ceisio lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, gan gynnwys ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, trwy ymrwymo i set gynhwysfawr o amcanion amgylcheddol:

1 Parhau i ddefnyddio ynni'n effeithlon a monitro'r $CO_2$ a gynhyrchir, gan anelu at ostwng ymhellach ein hallyriadau a chyfrannu at darged sero net sector cyhoeddus Cymru erbyn 2030.

2 Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru (LlC) “Tuag at Ddyfodol Diwastraff”, parhau i beidio ag anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi.

3 Yn unol ag ymrwymiad LlC “Tuag at Ddyfodol Diwastraff”, lleihau sgil-gynhyrchion gwastraff 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050 (yn seiliedig ar ffigurau 2013-2014).

4 Lleihau effaith cludiant y sefydliad sy’n cyfrannu at y targed lleihau CO2 (amcan 1).

5 Cyfleu mentrau amgylcheddol a’n hymrwymiad i gynaliadwyedd ehangach i’r cyhoedd a’r staff.

6 Parhau i ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol mewn gweithdrefnau prynu.

**Ein perfformiad 2022-2023**

1. **Parhau i ddefnyddio ynni’n effeithlon a monitro’r $CO_2$ a gynhyrchir1, gyda’r nod o’i leihau 10% dros y pum mlynedd nesaf (ar sail ffigurau 2017-2018).**

Allyriadau $CO_2$:

| | | |
|---|---|---|
| Gwaelodlin Estyn | 2017 - 2018 | 153,727 kg $CO_2$ |
| **Targed erbyn** | **2022 - 2023** | **138,354 kg $CO_2$** |
| Gwirioneddol | 2018 - 2019 | 102,660 kg $CO_2$ |
| | 2019 - 2020 | 120,709 kg $CO_2$ |
| | 2020- 2021 | 9,819 kg $CO_2$ |
| | 2021-2022 | 60,068 kg $CO_2$ |
| | 2022-2023 | 92,588 kg $CO_2$ |


Rydym wedi rhagori o bell ffordd ar ein targed gwreiddiol, sef gostyngiad o 10% mewn allyriadau CO2 dros y pum mlynedd nesaf (ar sail ffigurau 2017-2018). Yn wir, rydym wedi gostwng allyriadau 40% dros y cyfnod hwn. Mae cynlluniau teithio, mentrau caffael, cynllunio ynni, gweithgareddau swyddfa, arloesiadau mewn technoleg ac ymddygiadau dylanwadu i gyd wedi cyfrannu. Rydym wedi lleihau gofod y swyddfa, symud i weithio hybrid ar gyfer staff gwasanaethau canolog, annog teithio llesol a chynlluniau cerbyd gwyrdd, cynyddu gweithgarwch ar-lein a lleihau papur trwy arloesiadau mewn technoleg a phrosesau caffael, a chodi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd trwy brosesau arolygu.

[1] Defnyddiwyd ffactorau trosi blynyddol Defra i gyfrifo allyriadau $CO_2$ trwy gydol yr adroddiad hwn.

Diwygiwyd ein targed allyriadau ar gyfer 2023-204 i adlewyrchu ein cynnydd a'n cynlluniau parhaus i gyfrannu at darged sero net sector cyhoeddus Cymru erbyn 2030:

- Parhau i ddefnyddio ynni'n effeithlon a monitro'r CO2 a gynhyrchir, gan anelu at ostwng ymhellach ein hallyriadau a chyfrannu at darged sero net sector cyhoeddus Cymru erbyn 2030.

Mae'r graff isod yn dangos y duedd o ran allyriadau dros y 9 mlynedd diwethaf:





Roedd cyfanswm yr allyriadau $CO_2$ yn 2022-2023 yn 92,588 kg CO2. Cyfanswm allyriadau 2021-2022 oedd 60,068 kg, ac yn y flwyddyn gynt, 9,819kg oedd cyfanswm yr allyriadau. Mae hyn yn adlewyrchu dychwelyd i weithrediadau busnes Estyn a defnyddio'r swyddfa (gweithio hybrid erbyn hyn) yn sgil effaith pandemig Covid-19. Mae ffigurau ein hallyriadau wedi'u seilio o hyd ar ein hamgylchedd swyddfa a symud i drefniant gweithio hybrid i'n staff swyddfa o Chwefror 2022 ymlaen.

Byddai 2019-2020 yn flwyddyn fwy nodweddiadol ar gyfer cymharu allyriadau, pan roedd cyfanswm yr allyriadau yn 120,709 kg $CO_2$.

O ran trydan, dyma ein pumed flwyddyn yn defnyddio ynni glân ac, fel y cadarnhawyd gan y Ganolfan Ynni Gwyrdd, gellir cofnodi ein hallyriadau cwmpas 2 ar gyfer trydan sy'n cael ei dynnu o'r grid cenedlaethol fel sero. Caiff tariff ynni 100% adnewyddadwy Estyn ei ategu gan Warantau Tarddiad Ynni Adnewyddadwy (REGO).

Mae cyfran yr allyriadau $CO_2$ a gynhyrchwyd o nwy a theithio ar gyfer y cyfnod i'w gweld isod:





Nodir rhagor o fanylion am y mentrau yr ydym yn eu hyrwyddo i gefnogi gostyngiad yn ein hallyriadau $CO_2$ o gludiant yn adran 4 isod.

**Defnydd o ynni:**

Caiff y taliad am ddefnyddio nwy yn yr adeilad ei ddosrannu gan y landlord rhwng y tenantiaid ac mae wedi'i gynnwys yn ein cost gwasanaeth. Mae lleihau ein swyddfa wedi effeithio ar ein defnydd o nwy, fel y mae'r patrwm gweithio hybrid a ddilynir gan staff gwasanaethau canolog. Roedd allyriadau $CO_2$ o ddefnyddio nwy yn 6,080 kg $CO_2$ yn 2022-2023 o gymharu â 10,731kg yn 2019-2020).

Gan droi at drydan, mae effaith diffodd y system awyru yn ystod y pandemig wedi arwain at ddefnyddio llai o drydan o lawer yn ystod y cyfnod hwnnw ac, yn fwy diweddar, mae lleihau'r swyddfa a gweithio hybrid wedi arwain at ostyngiad parhaus yn 2022-2023. Gostyngiad o 68% ers 2019-2020.




Mae’r gweithgarwch hwn yn ymwneud ag amcan 4 Cynllun Adfer Natur Cymru.


**2. Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru (LlC) “Tuag at Ddyfodol Diwastraff”, parhau i beidio ag anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi.**

Ers 2018-19, nid ydym wedi anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi a’n nod yw cynnal y safon hon.

Mae gennym nifer o sianeli gwaredu ailgylchu/adfer ynni[2] ar waith ar gyfer ein hystod amrywiol o ffrydiau gwastraff:


- caiff papur, caniau alwminiwm, poteli plastig a gwastraff bwyd eu hailgylchu gan ddefnyddio gwasanaethau’r cyngor
- caiff offer TG ei ailgylchu gan ddefnyddio menter fach leol, sef Ecycle
- caiff ein ‘gwastraff bagiau duon’ ei losgi yn llosgydd Viridor Trident Park, gan adfer ynni
- gwastraff glanweithiol – yn 2017-18, fe wnaethom adrodd mai gwastraff glanweithiol oedd ein ffrwd wastraff olaf a oedd yn mynd i safleoedd tirlenwi o hyd ac, yn ystod y flwyddyn honno, cyflwynodd ein darparwr gwasanaeth, PHS, broses rheoli gwastraff gynaliadwy batentedig, lle caiff ynni ei adfer o’r gwastraff ar ffurf Tanwydd yn Deillio o Sbwriel (RDF).

[2] Ailgylchu/adferiad ynni Estyn ar sail pwysau mewn kg o wastraff




Mae'r siart isod yn dangos yn fanylach gyfran y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi o gymharu â phob un o'n ffrydiau gwastraff wedi'i ailgylchu ar gyfer y cyfnod o wyth mlynedd:

**Cyfran pob ffrwd gwastraff wedi'i ailgylchu o gymharu â thirlenwi 2014-2015 i 2022-2023**




Gwastraff a gynhyrchwyd (kg)

Mae gwastraff y swyddfa yn parhau i ostwng. Mae'r cynnydd mewn lefelau gwastraff cyfrinachol ac ailgylchu papur yn 2021-2022 yn bennaf o ganlyniad proses i leihau'r swyddfa a ddigwyddodd rhwng Medi a Rhagfyr 2021.

Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud ag amcan 4 Cynllun Adfer Natur Cymru.

**3. Yn unol ag ymrwymiad LIC "Tuag at Ddyfodol Diwastraff", lleihau sgil-gynhyrchion gwastraff 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050 (yn seiliedig ar ffigurau 2013-2014).**

| | |
|---|---|
| **Gwaelodlin 2013-2014:** | **8,080 kg o sgil-gynnyrch gwastraff blynyddol (R-5,767 kg/L-2,313 kg)** |
| **Targed:** | **Gostyngiad o 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050.** |
| 2014-2015: | 6,891 kg (R-5,456 kg/L-1,435 kg) |
| 2015-2016: | 9,175 kg (R/ER-8,319 kg/L-856 kg) |
| 2016-2017 | 7,847 kg (R/ER 7,301 kg/L 546 kg) |
| 2017-2018 | 5,774 kg (R/ER 5,228 kg/L 546 kg) |
| 2018-2019 | 6,003 kg (R/ER) |
| 2019-2020 | 6,263 kg (R/ER) |
| 2020-2021 | 456 kg (R/ER rhannol amcangyfrifedig) |
| 2021-2022 | 2,395 kg (R/ER rhannol amcangyfrifedig) |
| 2022-2023 | 1,879 kg (R/ER) |



Sylwch fod swm y sgil-gynhyrchion gwastraff yn ystod y cyfnod 2020-2021 a 2021-2022 wedi'i amcangyfrif ar sail presenoldeb cyfyngedig staff yn y swyddfa. Rydym yn parhau i ostwng ein gwastraff yn 2022-2023. Mae lleihau'r swyddfa a gweithio hybrid i staff gwasanaethau canolog wedi bod yn ffactorau allweddol wrth leihau cyfanswm ein gwastraff.


Rydym wedi dangos ymrwymiad cyson i leihau gwastraff yn ein prosesau recriwtio a chaffael, trwy gynnal pob ymgyrch yn electronig, ac wedi cynyddu ymhellach ein defnydd o gyfathrebu electronig ar gyhoeddiadau allanol ac wrth ddarparu deunyddiau hyfforddi i arolygwyr allanol.

Mae ein mentrau ymgorfforedig eraill yn cynnwys:

- Microsoft Sharepoint, sef platfform ar gyfer ein TGCh sy'n cefnogi cydweithio ac yn cynnwys ystafell arolygu rithwir ar gyfer rhannu gwybodaeth arolygu rhwng darparwyr ac Estyn
- dosbarthu adroddiadau arolygu yn electronig i Aelodau'r Senedd a darparwyr
- dosbarthu'n electronig gylchlythyrau mewnol ac allanol ar-lein; a
- chyhoeddi ein dogfennau corfforaethol ac adroddiadau cylch gwaith yn electronig, yn hytrach nag argraffu copïau papur

Cynhaliwyd yr 11 digwyddiad i randdeiliaid ar-lein ac, o blith 41 digwyddiad hyfforddiant, cynhaliwyd 30 ar-lein a 11 arall wyneb yn wyneb. Mae hyn yn cyfrannu i raddau at leihau ein hallyriadau $CO_2$.

Mae'r siart isod yn dangos y dirywiad graddol yn y defnydd o bapur a chetris argraffu ers 2015-2016  wrth i ni symud i amgylchedd gweithio dibapur:



Cyfanswm y gwariant ar wastraff yn 2022-2023 oedd £3,705.33 (£2,918.00 yn 2019-2020) – roedd hyn yn cynnwys gwasanaethau'r cyngor lleol a gwasanaeth ailgylchu arbenigol ar gyfer 'gwastraff sensitif oddi ar y safle'.


Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud ag amcan 4 Cynllun Adfer Natur Cymru.

**4. Lleihau effaith cludiant y sefydliad sy'n cyfrannu at y targed i leihau $CO_2$ (amcan 1).**

Mae ein prif effaith ar yr amgylchedd yn deillio o allyriadau $CO_2$ o gludiant pan fydd ein harolygwyr yn ymweld â darparwyr addysg a hyfforddiant. Aeth gweithgarwch busnes yn ôl i'w lefelau arferol yn 2022-2023.

Bu gostyngiad ym milltiredd Estyn ar y cyfan yn 2022-2023 o gymharu â lefelau 2019-2020. O fewn hyn, cynyddodd y defnydd o geir personol ychydig a bu gostyngiad yn y defnydd o geir wedi'u llogi. O ganlyniad, cyfanswm ein hallyriadau yn sgil defnyddio ceir oedd 86,275 kg yn 2022-2023 (103,357 kg yn 2019-2020) a theithiwyd 304,663 milltir yn ystod y cyfnod, o gymharu â 356,129 milltir yn 2019-2020.

Gweler y siart isod.





Sylwch : mae elfen fechan ychwanegol o filltiredd hybrid petrol, sef 899 milltir yn 2022-2023 (0.3% o gyfanswm y milltiredd).

Rydym wedi cyflwyno Cynllun Ceir Gwyrdd (prydlesi cerbydau gwyrdd). Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r cynllun, sy'n caniatáu i'w staff a staff Estyn (fel rhan o'n trefniadau cyflogres â Llywodraeth Cymru) ddefnyddio'r cynllun. Mae un ar ddeg o

gydweithiwr Estyn wedi manteisio ar y cynllun, a aeth ar waith ym Mehefin 2021 (danfonwyd y cerbyd iddynt). Mae rhagor wrthi'n troi at y cynllun, ond nid oes gennym y niferoedd wedi'u cadarnhau.

Mae allyriadau cludiant blynyddol (car, rheilffordd ac awyr) yr arolygiaeth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i'w gweld isod. Byddwch yn gweld bod cyfanswm yr allyriadau CO2 ar gyfer cludiant yn 2022-2023 yn 86,508 kg CO2, gan gynnwys car, awyr a rheilffordd.




Fel y nodwyd uchod, parhaodd allyriadau cludiant i gyfrif am y gyfran fwyaf o'n hallyriadau $CO_2$ – 93% yn 2022-2023.

Roedd cyfran yr allyriadau $CO_2$ ar draws yr holl ffrydiau cludiant dros yr wyth mlynedd diwethaf fel a ganlyn:

| | **Disel** | **Petrol** | **Rheilffordd** | **Awyr** |
|---|---|---|---|---|
| 2015-16 | 54.6% | 39.7% | 1.4% | 4.3% |
| 2016-17 | 56.0% | 38.3% | 1.8% | 3.9% |
| 2017-18 | 54.2% | 39.7% | 1.8% | 4.4% |
| 2018-19 | 47.2% | 43.6% | 1.8% | 7.3% |
| 2019-20 | 49.0% | 44.9% | 1.0% | 5.0% |
| 2020-21 | 54.6% | 43.5% | 1.9% | 0.0% |
| 2021-22 | 45.1% | 54.7% | 0.2% | 0.0% |
| 2022-23 | 42.4% | 57.3% | 0.2% | 0.1% |

Mae effaith ein cludiant yn sylweddol gan ein bod yn arolygiaeth sy'n cwmpasu Cymru gyfan

Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud ag amcan 4 Cynllun Adfer Natur Cymru.

## 5. Cyfleu mentrau amgylcheddol a'n hymrwymiad i gynaliadwyedd ehangach i'r cyhoedd a staff.

### Llywodraethu a chymorth

Mae ein Grŵp Rheoli Strategol, sy'n cael ei gadeirio gan Brif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn gyfrifol am gynaliadwyedd a chydymffurfio â'r ddyletswydd bioamrywiaeth.  Mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Arolygu a Gwasanaethau Canolog yn aelod o'r Grŵp Rheoli Strategol a hi yw'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol sydd â chyfrifoldeb am gynaliadwyedd, gan gynnwys y ddyletswydd bioamrywiaeth.  Caiff ei chynorthwyo gan y Pennaeth Llywodraethu, sef y Swyddog Arweiniol: Cynaliadwyedd.

Mae ein Swyddog Gwasanaethau Swyddfa yn gweithio gyda'r Swyddog Arweiniol: Cynaliadwyedd i oruchwylio ein systemau rheolaeth amgylcheddol.  Mae'r tîm Gwasanaethau Swyddfa yn cynnal systemau rheolaeth amgylcheddol Estyn o ddydd i ddydd, er enghraifft cofnodion gwastraff, cofnodion papur ac offer ysgrifennu, a chofnodion defnyddio ynni.  Yn ychwanegol, mae'r tîm Caffael yn rheoli cofnodion teithio staff ac yn parhau i ymgorffori ystyriaethau cynaliadwyedd mewn gweithdrefnau prynu.

Mae'r Grŵp Cyflenwi Gwasanaethau yn fforwm ar gyfer trafod materion busnes gweithredol, gan gynnwys amcanion a thargedau gwelliant amgylcheddol; bydd hyn yn cynnwys camau gweithredu a nodwyd o dan ddyletswydd adran 6. Caiff y grŵp ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Arolygu a Gwasanaethau Canolog ac mae'r aelodau'n cynnwys staff gwasanaethau corfforaethol ar radd Swyddog Gweithredol Uwch, ac yn uwch.

Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud ag amcan 6 Cynllun Adfer Natur Cymru.

## Codi ymwybyddiaeth

Yn ystod 2022-2023, parhaodd Estyn i gynnal arolygiadau craidd ledled pob sector gan ddefnyddio dogfennau arweiniad wedi'u diweddaru. Mae ein prosesau arolygu'n ystyried pa mor dda mae ysgolion yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wrth iddynt ddatblygu'u hymagwedd at y Cwricwlwm i Gymru. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu'n ddinasyddion gwybodus, moesegol, er enghraifft trwy eu hymwybyddiaeth o gynaliadwyedd a hawliau plant. Mae arolygiadau hefyd yn ystyried pa mor dda y mae ysgolion neu unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn cynllunio ac yn darparu dysgu'r tu allan i'r ystafell ddosbarth a sut mae darparwyr yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant, ac anghenion a hawliau pobl eraill yn lleol ac fel aelodau o fyd amrywiol.

Yn adroddiad blynyddol 2021-2022 y Prif Arolygydd, a gyhoeddwyd yn Ionawr 2023, mae enghreifftiau a chameos o arfer effeithiol. Mae adroddiadau sector ar gyfer meithrinfeydd nas cynhelir ac ysgolion cynradd yn pwysleisio buddion sylweddol dysgu yn yr amgylchedd awyr agored. Er enghraifft:

- Gosododd bron pob meithrinfa nas cynhelir bwyslais cryf ar ddarparu cyfleoedd i blant chwarae a dysgu yn yr awyr agored.
- Rhoddodd llawer o ysgolion cynradd raglenni ar waith i gefnogi disgyblion dan straen emosiynol, a chyflwynodd ychydig ohonynt weithgareddau fel ymarfer corff dyddiol yn yr awyr agored.

Roedd arfer gadarn i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn cynnwys:

- ysgolion a ganolbwyntiodd yn gadarn ar eu bro, gan gynnwys yr amgylchedd, i lunio cysylltiadau â chyd-destun ehangach Cymru a thu hwnt wrth ddylunio'r cwricwlwm
- cymorth i ddisgyblion fyfyrio ar faterion byd-eang fel cynaliadwyedd, lleihau'r ôl troed carbon, cynhesu byd-eang a'r amgylchedd
- cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at grwpiau a phwyllgorau, fel pwyllgor Eco a grwpiau sy'n hyrwyddo hawliau a dinasyddiaeth
- cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at weithgareddau allgyrsiol fel garddio, gofalu am anifeiliaid a chadw gwenyn.

Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud ag amcan 1 Cynllun Adfer Natur Cymru.

## 6. Parhau i ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol mewn gweithdrefnau prynu.

Mae Estyn yn ymrwymo i brynu cyfrifol yn gymdeithasol gan anelu at wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Ystyrir y materion hyn trwy gydol prosesau prynu a rheoli contractau wrth brynu nwyddau a gwasanaethau.

Rydym yn cynnal pob gweithgarwch prynu yn electronig - wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig ag arolygu, rydym yn ymdrechu i ddefnyddio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol neu fframweithiau eraill a gymeradwyir gan y

llywodraeth yn y lle cyntaf. Bydd cyflenwyr a geir trwy'r llwybr hwn eisoes wedi dangos tystiolaeth o'u hymrwymiad i wella'r amgylchedd er mwyn cael eu cynnwys mewn lotiau tendr.

Yn absenoldeb fframwaith priodol, neu lle nad oes angen tendr llawn, ceir cyflenwyr trwy GwerthwchIGymru, gan felly flaenoriaethu cefnogaeth i fentrau bach a chanolig Cymreig ac ymgysylltu â chyflenwyr lleol, lle y bo'n bosibl.

Rydym yn cynnwys ystyriaethau amgylcheddol (ar gyfer nwyddau a gwasanaethau perthnasol) yn ein model sgorio gwerthuso tendrau ac rydym yn gwahodd cyflenwyr i ddangos, yn eu ceisiadau, dystiolaeth o'r ffordd y gallant ein cynorthwyo i fodloni ein hamcanion amgylcheddol, gan eu hannog i ddefnyddio ein Polisi Amgylcheddol (ar ein gwefan) am arweiniad.

Wrth gaffael gwasanaethau arolygu, rydym yn gwahodd Arolygwyr Ychwanegol dan Gontract, a gymeradwyir gan Estyn, i gyflwyno eu cyfraddau tendro i ni'n electronig trwy borth diogel. Gwneir cynigion contract trwy'r porth diogel hwn hefyd. Mae'r dull hwn wedi bod yn gyfrwng effeithiol ar gyfer rheoli'r arfer o ddarparu a lleoli Arolygwyr Ychwanegol dan Gontract, ac mae wedi cael gwared ar yr angen i gyhoeddi llythyrau cynnig, gan leihau'r gofynion argraffu i'r naill barti a'r llall.

Mae'r gweithgarwch hwn yn ymwneud ag amcan 4 Cynllun Adfer Natur Cymru.